**Ymateb Y Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru: Ymchwiliad Dilynol**

**Medi 2012**

---

Un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gwasanaeth o'r radd flaenaf yn cael ei ddatblygu ar gyfer holl ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yng Nghymru ac felly mae'n bleser cael derbyn yr adroddiad hwn yn dilyn ymchwiliad undydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am gasglu a chyflwyno'r canfyddiadau ac i'r rhai a roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Rwy'n croesawu prif gasgliadau'r Pwyllgor ynglŷn â faint sydd wedi'i gyflawni ers adroddiad y Pwyllgor blaenorol. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r rhai sydd wedi gweithio mor galed i wneud y cyfryw welliannau mewn cyfnod cymharol fyr. Roedd yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn dda â'n cyfeiriad cyfredol ac rwy'n awyddus i gynnal y momentwm.

Mae mynediad prydlon i wasanaeth cadeiriau olwyn effeithiol yn hanfodol i ansawdd bywyd eu defnyddwyr ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i leihau amseroedd aros. Fodd bynnag, mae yna fwy o waith i'w wneud, ac rwy'n credu bod angen i'r gwasanaethau cadeiriau olwyn ganolbwyntio ar gyflawni yn erbyn targedau o ran amseroedd aros, heb wneud newidiadau sylweddol i'r model gwasanaeth ar hyn o bryd.

Bydd cwblhau'r Fanyleb Gwasanaeth Cenedlaethol, fel y nodwyd yn eich casgliad cyntaf, yn rhoi dealltwriaeth gyffredin o natur y gwasanaeth a fydd yn cael ei ddarparu. Rwy'n ei hystyried yn ddogfen bwysig ar gyfer darparu gwasanaeth di-dor i'r defnyddwyr, i'w gofalwyr ac i weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae manyleb glir ar gyfer gwasanaethau yn hanfodol er mwyn sicrhau gwasanaeth effeithiol a dibynadwy ac fe'i cyflwynir yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth ym mis Hydref.

Yn fy marn i, y flaenoriaeth nesaf yw canolbwyntio ar gyflawni. Fodd bynnag, yn wyneb y cynnydd a wnaed, mae cyfle bellach i'r Bwrdd Partneriaeth ystyried y cyfeiriad strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan ystyried gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun "Law yn Llaw at Iechyd" y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'ch argymhellion.

Rwy'n derbyn y sylwadau yn eich ail gasgliad bod angen gwella'r broses o gyfleu'r holl waith da sydd wedi'i wneud. Gallaf gadarnhau ers i'r Pwyllgor gyfarfod ym mis Mawrth, mae gwaith eisoes ar y gweill i wella hyn drwy ddiweddaru gwefan bwrpasol ar safle Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSCC) a sefydlu gweithgor o'r ddau wasanaeth cadeiriau olwyn er mwyn adolygu a gwella'r wefan Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ASAS).

At hynny, ers i mi ymuno â'r Pwyllgor ym mis Mai, cynhaliwyd dau ddigwyddiad ar gyfer rhanddeiliaid wedi'u hanelu at y sawl sy'n atgyfeirio at y gwasanaeth cadeiriau olwyn er mwyn rhannu'r gwelliannau a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf a chasglu adborth gan staff proffesiynol ynglŷn â'r mecanweithiau cyfathrebu a fyddai'n fwyaf defnyddiol iddynt hwy. Dyma'r argymhellion a gafwyd o'r digwyddiadau:

- rhaglen gyfathrebu dwy ffordd, reolaidd gyda rhanddeiliaid a'r sawl sy'n atgyfeirio ac ystyried cynnal fforymau blynyddol neu ddwywaith y flwyddyn;
- llunio cylchlythyr rheolaidd ar gyfer y sawl sy'n atgyfeirio;
- dylai'r wefan Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALAS) gynnwys adnodd ar-lein o ddeunyddiau defnyddiol ar gyfer y sawl sy'n atgyfeirio a chyfleusterau ar gyfer e-hyfforddi.

Hoffwn hefyd amlygu pwysigrwydd ffrwd gwaith ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, gan y bydd yn sefydlu system electronig a fydd yn rhoi adborth rheolaidd i'r gwasanaeth cadeiriau olwyn y gellir ei ddefnyddio i lywio'r ddarpariaeth a datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol.

Rwyf hefyd yn croesawu a chymeradwyo'ch trydydd casgliad ynglŷn â phwysigrwydd cydweithio â gwasanaethau cymunedol a'r Trydydd Sector. Mae'r rhaglen wella yr oedd yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) yn ei chefnogi wedi cyflawni gwelliannau sylweddol yn y broses o gydweithio trwy ddatblygu clinigau ar y cyd â'r sawl sy'n atgyfeirio, technegwyr cadeiriau olwyn a therapyddion galwedigaethol. Bu cynnydd hefyd yn y nifer yr Aseswyr Dibynadwy - staff cymorth yn y gymuned sydd wedi'u hyfforddi i asesu ac argymell cymorthion ar gyfer bywyd bob dydd gan gynnwys atgyfeiriadau cadeiriau olwyn. Defnyddiwyd y digwyddiad diweddar ar gyfer rhanddeiliaid fel cyfle i hyrwyddo cydweithio ac, er enghraifft, i nodi anghenion hyfforddi mewn perthynas ag atgyfeiriadau electronig a'r angen i archwilio'r broses o ddefnyddio telefeddygaeth i hwyluso'r broses atgyfeirio.

Dyma fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

| |
|---|
| **Argymhelliad 1:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, o ystyried y data ar berfformiad sydd wedi bod ar gael ers 1 Ebrill 2012, yn sicrhau bod yr adnoddau cylchol a ddyrennir i wasanaethau cadeiriau olwyn yn cael eu defnyddio i'w heithaf o ran effaith a bod adnoddau'n cael eu rhannu'n deg ledled Cymru er mwyn darparu gwasanaeth cydradd i bawb.<br>(Tud 33) |

**Ymateb: Derbyn**

Mae llawer o waith eisoes wedi'i wneud gyda'r ddau wasanaeth ALAS, gyda chymorth NLIAH, er mwyn cyflwyno prosesau effeithlon i ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau a gwella'r gwasanaeth i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae mwy o waith i'w wneud, er enghraifft, dadansoddi'r galw a'r adnoddau sydd ar gael yn y Gogledd, cyn y gall WHSCC adolygu'r gwaith o ddyrannu adnoddau.

Rwy'n falch bod yr arian ychwanegol a fuddsoddodd Llywodraeth Cymru eisoes wedi dod â budd cadarnhaol a sylweddol i'r gwasanaethau, yn enwedig o ran lleihau rhestrau aros i blant er mwyn bodloni safonau'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer plant. Daeth budd cyffredinol ehangach i'r gwasanaeth hefyd yn sgil y buddsoddiad ychwanegol hwn drwy wella prosesau atgyfeirio, prosesau gweinyddol, systemau TG a llif stoc a chaffael. Nodwyd newidiadau i arferion gweithio a chawsant eu rhoi ar waith ac mae hyn wedi sicrhau bod yna fwy o amser clinigol ar gael ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth. Rwy'n fodlon hefyd bod yna gynnydd wedi'i wneud yn y gwaith o sefydlu clinigau lloeren, treialu gweithio ar benwythnosau, datblygu clinigau un stop, a chynyddu nifer yr Aseswyr Dibynadwy ledled Cymru a nifer y staff proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi at lefel 1. Rwy'n disgwyl i'r gwelliannau barhau wrth i'r newidiadau hyn effeithio ar y gwasanaeth y mae'r defnyddwyr yn ei gael.

Ar ôl i'r gwaith o wella'r gwasanaeth ddirwyn i ben, gwaith Cydbwyllgor WHSCC fydd ystyried a oes angen addasu adnoddau.

**Goblygiadau ariannol -** Dim. Disgwylir i unrhyw gostau gael eu talu o'r arian ychwanegol a fuddsoddwyd yn y gwasanaethau cadeiriau olwyn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 2:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Bwrdd Partneriaeth yn ystyried sut y gellid gwella darpariaeth gwasanaethau drwy drefniadau cyllido ar y cyd a/neu gyllidebau wedi'u cyfuno yn y 12 mis nesaf, yn enwedig yr angen i ddatrys unrhyw broblemau sy'n ymwneud â chyfarpar a brynwyd o dan drefniadau cyllido ar y cyd neu gyllidebau wedi'u cyfuno.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Fanyleb Gwasanaeth Cenedlaethol newydd yn darparu egwyddorion ar gyfer llywio adolygiad o drefniadau cyd-ariannu.

Mae gan Fyrddau Iechyd eisoes bwerau i sefydlu cyllidebau cyfun a threfniadau cydweithio gyda Llywodraeth Leol ac mae Byrddau Iechyd eisoes yn gwneud rhywfaint o waith cydariannu, er enghraifft, gyda'r eluisen Whizz Kids, ar gyfer teclynnau codi seddi. Gall defnyddwyr dalu am addasiadau i

gadeiriau olwyn eu hunain (nad ydynt yn ofynnol at ddibenion iechyd) ond ni ddylai'r cyfryw addasiadau amharu ar ddiogelwch neu swyddogaeth y gadair olwyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar sut i sefydlu a darparu partneriaethau a chyllidebau cyfun drwy wefan westeia'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn http://www.ssiacymru.org.uk/partnerships. Er mwyn darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr ac ymatebol, hoffwn weld y gwasanaethau cadeiriau olwyn yn defnyddio mwy o'r cyfleusterau sydd eisoes ar gael iddynt dan y pwerau cyfredol. Gan fod gan Lywodraethau Lleol eisoes gynrychiolaeth ar y Bwrdd Partneriaeth, byddaf yn gofyn i'r Bwrdd Partneriaeth, sydd â mewnbwn sylweddol o ran defnyddwyr gwasanaethau, i archwilio i ba raddau y gellir defnyddio'r fframweithiau presennol yn well, er mwyn cefnogi asiantaethau eraill i gydweithio'n agosach. Byddai hyn yn cynnwys ystyried materion atgyweirio a chynnal a chadw.

**Goblygiadau ariannol -** Dim. Disgwylir i unrhyw gostau gael eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 3**: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y prosiectau peilot sydd ar waith ar gyfer benthyca cadeiriau am gyfnod byr yn cael eu datblygu'n gyflym ac y dylent roi sylw i ffyrdd o fynd i'r afael â'r diffyg ariannol blynyddol sylweddol sy'n wynebu'r Groes Goch Brydeinig.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n croesawu ac yn cymeradwyo'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y broses o gydweithio gyda'r Groes Goch Brydeinig wedi gwella dros y 12-18 mis diwethaf yn sgil sefydlu'r prosiectau peilot.

Sefydlwyd Grŵp Benthyca Cadeiriau Olwyn Tymor Byr, dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a gwahoddwyd cynrychiolwyr o ALAS, y Groes Goch Brydeinig (Cymru), NLIAH, cynrychiolwyr o gyrff eraill y GIG a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru am gael adroddiadau o'r prosiect bob chwe mis, er mwyn ei adolygu yn erbyn cynllun y prosiect.

Disgwylir i'r prosiect lunio manyleb o fodel gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth cadeiriau olwyn tymor byr gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, meini prawf ar gyfer mynediad safonol, cyfarpar ac i ba raddau y maent ar gael. Bydd yn ymchwilio hefyd i fecanweithiau ar gyfer sicrhau mwy o weithio integredig rhwng y Byrddau Iechyd, yr Awdurdodau Lleol a'r Groes Goch Brydeinig, gan gynnwys llwybrau gwell ar gyfer cyflymu mynediad i gadeiriau olwyn tymor byr. Bydd y prosiect hefyd yn nodi meysydd ar gyfer gwella'r gwasanaeth drwy arolygon boddhad defnyddwyr gwasanaethau yn yr ardaloedd peilot. Bydd yr holl waith hwn yn llywio model gwasanaeth gwell ar gyfer benthyg

cadeiriau olwyn am gyfnod byr a bydd y datblygiadau'n cael eu rhannu ledled y Byrddau Iechyd.

**Goblygiadau ariannol** - Dim, mae arian y prosiect eisoes wedi'i nodi a'i neilltuo.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**Argymhelliad 4:** Rydym o'r un farn â'n Pwyllgor blaenorol mai mynd ar drywydd cyfleoedd i gyllido cyfarpar ar y cyd yw'r ffordd fwyaf realistig o sicrhau bod cymaint o gyfarpar â phosibl ar gael i ddefnyddwyr er mwyn diwallu anghenion cymdeithasol yn ogystal ag anghenion clinigol. Rydym yn argymell bod gwaith y Bwrdd Partneriaeth i ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwasanaeth sy'n gallu mynd i'r afael â gofynion cymdeithasol a ffordd o fyw ehangach defnyddwyr yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl, ac erbyn hydref 2012 fan bellaf, sef y terfyn amser a nodwyd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, a bod unrhyw newidiadau arfaethedig i fanyleb y gwasanaeth yn cael eu prisio'n fanwl ac yn cael eu paratoi cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar gwmpas ymarfer y gwasanaeth. (tud 47)

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rwy'n hapus i dderbyn yr argymhelliad hwn ac yn cytuno ei fod yn waith hynod bwysig, fodd bynnag mae hefyd yn waith cymhleth. Felly, rwy'n credu nad yw'r amserlen yn realistig ar gyfer arfarniad trylwyr o ddewisiadau – gan y byddai angen cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, ac archwilio ffynonellau cyllid posibl i wneud hynny.

Yn fy ymateb i argymhelliad 2, rwyf eisoes wedi amlinellu'r gwaith y byddaf yn gofyn i'r Bwrdd Partneriaeth ei wneud mewn perthynas â chyd-ariannu.

Bydd cwblhau'r Fanyleb Gwasanaeth Cenedlaethol ym mis Hydref yn rhoi dealltwriaeth gyffredin o natur y gwasanaeth a fydd yn cael ei ddarparu ac yn gosod llinell sylfaen ar gyfer yr hyn sydd eisoes yn bodoli. Rydym yn ffodus iawn yng Nghymru fod gan ALAS (y gogledd a'r de) fynediad i'r amrywiaeth ehangaf o gadeiriau olwyn yn y DU, cyfanswm o 148 o fodelau. Hefyd, gall staff clinigol wyro oddi ar y contract os oes yna angen clinigol. Mae staff ALAS wedi'u hyfforddi i asesu, ffitio, cynnal a chadw ac atgyweirio pob un o'r 148 o fodelau. Yn ogystal, mae gan y gwasanaeth stoc helaeth iawn o gydrannau, fel y gellid ymateb yn gyflym os yw cadeiriau olwyn yn torri. O ganlyniad, dylid cydnabod bod y system yn darparu dewis helaeth ac nad yw'r dewis hwn ar gael yng ngwledydd eraill y DU.

Yn ôl y gwasanaethau ALAS, er bod y cyllid cyfredol ar gyfer y rhai y mae cadeiriau olwyn yn hanfodol iddynt, gwneir pob ymdrech i ystyried ffordd o fyw a'r model cymdeithasol o ran anabledd. Fodd bynnag, yn sgil datblygiadau technegol yn y cyfarpar a'r ffaith bod disgwyliadau defnyddwyr yn newid, rwy'n cytuno y dylid cynnal adolygiad.

Byddaf yn gofyn i'r Bwrdd Partneriaeth ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Fy mwriad yw y bydd y grŵp hwn yn cael barn amrywiaeth eang o randdeiliaid er mwyn llywio arfarniad dewisiadau a fydd yn cynnwys costau. Caiff ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth ym mis Mehefin 2013 i'w ystyried wedyn gan Gyd-bwyllgor WHSSC. Nodaf y pryderon a fynegodd y darparwyr gwasanaethau y gallai ehangu'r fanyleb arwain at annhegwch o ran darpariaeth a bod angen ystyried hyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim wedi'u nodi hyd yn hyn ond bydd angen eu hystyried ymhellach.